**Y Pwyllgor Datblygu Economaidd EDC13-01(p3)**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad** | **31 Hydref 2001** |
| **Amser** | **2.00 - 5.30pm** |
| **Lleoliad** | **Ystafell Bwyllgor 1, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol, Bae Caerdydd** |
| **Teitl** | **Adolygiad o Gymorth Busnes – Adroddiad y Gweinidog** |

## Adolygiad o Wasanaethau Cymorth Busnes

### Cyflwyniad

**1**. Yn y cyfarfod ar 13 Mehefin, cytunodd y Pwyllgor Datblygu Economaidd mewn egwyddor ar ymateb y Cabinet i adroddiad y Pwyllgor a oedd yn adolygu'r gwasanaethau cymorth busnes. Mewn trafodaeth yn y Cyfarfod Llawn ar 3 Gorffennaf, cymeradwyodd y Cynulliad gynigion y Cabinet a diwygiwyd ychydig arnynt er mwyn rhoi ystyriaeth i'r sylwadau a wnaethpwyd gan y Pwyllgor Datblygu Economaidd. Cytunwyd y dylai'r Gweinidog hysbysu'r Pwyllgor Datblygu Economaidd erbyn canol mis Hydref ynghylch hynt y gwaith wrth weithredu'r gwahanol argymhellion y cytunwyd arnynt. Dyna bwrpas y papur hwn

### Cefndir

**2**. Yr oedd adroddiad y Pwyllgor Datblygu Economaidd yn cynnwys ystod eang o argymhellion a rannwyd o dan 7 pennawd eang.

**3**. Yn ymateb y Cabinet a'r drafodaeth yn y Cyfarfod Llawn, cyfeiriwyd at Argymhellion 1 a 2 gyda'i gilydd. Yr oeddynt yn canolbwyntio ar brinder yn yr ymchwil sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac arbenigedd er mwyn ysbrydoli'r gwaith o wneud penderfyniadau a llunio polisi economaidd yng Nghymru. Aethpwyd ar drywydd hwn yng nghyd-destun y Strategaeth Datblygu Economaidd Cenedlaethol a bu'n destun trafodaeth mewn papur ar wahân.

**4**. Cynlluniwyd Argymhellion 3 i 7 i fynd i'r afael â'r manylion o ddarparu a chyflawni gwasanaeth sy'n faterion. Cytunwyd y dylid gofyn i Awdurdod Datblygu Cymru weithio fel rhyw fath o gorff arweiniol i reoli gwasanaethau busnes. Wrth gymeradwyo'r safbwynt hwn, pwysleisiodd y Pwyllgor Datblygu Economaidd bwysigrwydd sicrhau bod Awdurdod Datblygu Cymru yn cydweithio'n agos gyda'r bobl allweddol. Cytunwyd y dylai Awdurdod Datblygu Cymru hysbysu'r Cynulliad erbyn canol Hydref o'r trywydd yr oedd yn bwriadu ei ddilyn.

**5**. Dyma'r tasgau penodol a roddwyd i Awdurdod Datblygu Cymru

- Bod yn gyfrifol am reoli'r Porth ar gyfer gwasanaethau cymorth busnes y sector cyhoeddus. Para 4.16. (Noder y bwriad i gadw'r enw 'Cyswllt Busnes);
- Cynnig bod yr Awdurdod yn rheoli rhwydwaith Cyswllt Busnes mewn dull a fydd yn cwrdd ag anghenion bob carfan ac yn enwedig y cwsmeriaid busnes. Para 4.36
- Ystyried yr achos i ymestyn canolfannau galwadau rhanbarthol ochr yn ochr â modelau eraill o ddarparu gwasanaethau. Para 4.18.
- Cynnig strwythur daearyddol ar gyfer gwasanaethau cymorth busnes sy'n sicrhau eu bod o fewn cyrraedd cwsmeriaid rhanbarthol yng Nghymru, (ychwanegiad i gynigion y Cabinet a wnaethpwyd yn y drafodaeth yn y Cyfarfod Llawn).
- Taflu golwg strategol dros strwythur y bartneriaeth bresennol a'r mecanweithiau cyllido, gyda'r bwriad o wella cydweithrediad. Para 4.12. Wrth drefnu'r cynlluniau bydd gofyn i chi ddangos fod gan yr Awdurdod gefnogaeth y partneriaid.
- Bydd y Cynulliad yn parhau i weinyddu'r Cymorth Rhanbarthol Dewisol (RSA) a gwasanaethau allforio. Serch hynny, bydd y cyfrifoldeb dros weinyddu'r RIN, SMART a SPUR yn trosglwyddo i'r Awdurdod. Yr wyf yn deall bod trafodaethau wedi cychwyn eisoes rhwng Swyddfeydd Personél y Cynulliad a'r Awdurdod.

- Dangos eich bod yn cwrdd ag anghenion y rhai hynny nad ydynt yn cael cynrychiolaeth lawn. Para 4.46.
- Adolygu polisïau'r Awdurdod er mwyn sicrhau bod y gweithdrefnau sy'n delio â chwynion yn gwbl glir ac amlwg. Para 4.41.
- Canfod lle mae gwasanaethau a nwyddau yn gorgyffwrdd neu wedi eu dyblygu ac ystyried ffyrdd o symleiddio'r darpariaethau er mwyn sicrhau'r ateb gorau i anghenion y cwsmeriaid a rhoi ystyriaeth i safbwyntiau'r partneriaid. Para 4.33.
- Sicrhau bod safonau ansawdd cenedlaethol yn cael eu meincnodi yn erbyn darparwyr gwasanaeth cyfwerth a dylid eu hadolygu'n gyson. Para 4.34.
- Cyflwyno mecanweithiau er mwyn galluogi gwerthusiad addas o'r gwasanaethau a gynigir. Dylai hyn gynnwys eu lledaeniad, ystod y nwyddau a dulliau cyflawni yn ogystal ag allbynnau terfynol. Para 4.34.
- Arfarnu'r holl wasanaethau yn rheolaidd o ran y galw amdanynt
(ee methiant yn y farchnad) ac arfarnu'r dulliau gorau o gyflawni ( ee cyhoeddus v preifat). Para 4.35.

- Sicrhau sefydliadau sector preifat y bydd yna dryloywder penderfyniadau yn enwedig ar adegau pan fod posibilrwydd o wrthdaro buddiannau, (ychwanegiad i gynigion y Cabinet a wnaethpwyd yn y drafodaeth yn y Cyfarfod Llawn).

**6**. Mae Awdurdod Datblygu Cymru wedi nodi yn y papur yn Atodiad 1 sut mae'n bwriadu mynd ati i gyflawni'r gwaith. Yr ydym wedi trafod y ddogfen gyda Sian Lloyd Jones, y Cyfarwyddwr Gweithredol dros Gymorth Busnes, sy'n gyfrifol am y maes hwn o weithgareddau'r Awdurdod,

ac fe’n bodlonwyd ni bod y cynigion hyn yn unol â dymuniadau’r Cynulliad ac fe fyddant yn bodloni’r anghenion a anodwyd.

**7. Gwahoddir y Pwyllgor i nodi’r cynigion a’r cynnydd a wnaed hyd yn hyn.**

**8**. Gofynnodd y Pwyllgor Datblygu Economaidd am sicrhad y byddai gwaith pellach yn cael ei wneud yn un o’r meysydd. Yr oedd y maes yn perthyn i’r weithdrefn o ddelio â chwynion a dderbyniwyd oddi wrth gwsmeriaid a oedd yn anfodlon iawn gyda’r gwasanaeth a dderbyniwyd.

**9**.Un awgrym oedd y dylid penodi Ombwdsmon Busnes. Cofnodwyd bod y Cynulliad eisoes yn ymwneud â adolygiad o swyddogaethau’r Ombwdsmon a gofynnwyd i ni a fyddai modd ymestyn yr adolygiad i gynnwys y maes hwn o’r sector cyhoeddus. Os nad oedd hyn yn bosibl, gofynnwyd i ni ystyried posibiliadau amgenach ac adrodd yn ôl at y Pwyllgor Datblygu Economaidd. Nodir ein darganfyddiadau a’n hargymhellion yn Atodiad 2.

**10. Gwahoddir y Pwyllgor i gymeradwyo’r cynigion yn Atodiad 2.**

**Mae fersiwn Saesneg y papur hwn yn cynnwys atodiadau. Yn anffodus nid yw'r atodiau hyn ar gael yn Gymraeg**

**Yr Is-adran Polisi Economaidd**
**Hydref 2001**